

# **Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Pleasure or Pain Productions

Dyddiad arolygu: 04 Chwefror  
2020

Dyddiad cyhoeddi: 14 Gorffennaf  
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
Ffacs: 0300 062 8387  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	17
4.	Beth nesaf? .....	19
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol .....	20
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	21
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Pleasure or Pain Productions ar 04 Chwefror 2020.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Nodwyd gennym fod Pleasure or Pain Productions yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas i roi triniaethau laser.

Roedd nodiadau a chofnodion y cleifion yn cynnal eu cadw i safon dda ac yn helpu'r clinig i ddarparu gofal unigol i'r cleifion.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn meddu ar y sgiliau priodol a'r wybodaeth berthnasol i ddarparu triniaeth ddiogel i bob claf.

Roedd angen gwneud gwelliannau er mwyn helpu i sicrhau diogelwch a llesiant y rheolwr cofrestredig a phobl a oedd yn ymweld â'r safle yn llawn.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gallai cleifion wneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth
- Roedd y clinig yn ceisio adborth gan y cleifion am eu profiadau
- Roedd trefniadau atal a rheoli heintiau da ar waith
- Roedd dogfennaeth ar gael i ddangos bod y peiriant laser wedi cael ei wasanaethu a'i gynnal a'i gadw.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddarau ei ddatganiad o ddiben mewn perthynas â sut y gall cleifion â phroblemau symudedd gael mynediad i'w gyfleusterau
- Mae angen cynnal asesiad risg tân ar gyfer yr adeilad
- Rhaid prynu pecyn cymorth cyntaf newydd
- Rhaid i'r clinig sicrhau bod y rheolau lleol sydd ar waith yn y clinig yn cael eu hadolygu gan ei Gynghorydd Diogelu rhag Laserau o leiaf unwaith y flwyddyn.

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn, yr oedd angen cymryd camau i'w hunioni ar unwaith.

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### Cefndir y gwasanaeth

Mae Pleasure or Pain Productions wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol yn 26 Cardiff Street, Aberdâr, CF44 7DA.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 9 Gorffennaf 2014 ac mae'n cyflogi un gweithredwr laser, sef y rheolwr cofrestredig<sup>1</sup>.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys:

- Gwaredu tatws
- Pîl carbon

---

<sup>1</sup> Ystyr rheolwr cofrestredig yw unigolyn sydd wedi'i gofrestru o dan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 fel rheolwr y gwasanaeth.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Nodwyd gennym fod y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan y clinig a bod y rheolwr cofrestredig yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Roedd trefniadau addas ar waith i warchod preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod ymgynoriadau a thriniaethau.

Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn y driniaeth ac ar ei hôl er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynglŷn â'u triniaeth.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 18 o holiaduron.

Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan; nododd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r driniaeth a gafwyd yn ardderchog neu'n dda iawn. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Mae'r staff yn wych ac mae fy ymweliadau â'r lle bob amser yn donig, yn feddylol ac yn gorfforol. Mae'r staff yn wych ac rwy'n teimlo fel petawn yn ymweld â ffrindiau"*

*"Rwyf bob amser yn cael gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol ac maen nhw'n gwneud i mi deimlo'n gyfforddus iawn yn ystod y driniaeth"*

*"Gofal a gwasanaeth ardderchog bob tro y byddaf yn dod yma. Mae'r ystafell bob amser yn lân ac mae staff y dderbynfa yn barod eu cymorth ac yn gymwynasgar iawn. Bob amser yn barod i helpu ac yn egluro pob gwasanaeth yn glir"*

## Hybu, diogelu a gwella iechyd



Dywedwyd wrthym fod yn rhaid i gleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol yn ystod eu hymgyngoriad cychwynol a llofnodi ffurflen cyn pob sesiwn driniaeth ddilynol sy'n cadarnhau a fu unrhyw newidiadau yn eu hanes meddygol. Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni hanes meddygol wedi'u cwblhau ac wedi'u llofnodi yng nghofnodion y cleifion i gadarnhau'r dull gweithredu hwn. Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC hefyd eu bod yn llenwi ffurflen hanes meddygol, neu fod rhywun yn cadarnhau eu hanes meddygol, cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Mae'r dull hwn o weithredu yn dilyn canllawiau arferion gorau ac yn helpu i sicrhau bod triniaeth yn ddiogel ac yn addas ar gyfer pob claf.

### **Urddas a pharch**

Cynhelir ymgynghoriadau â chleifion yn breifat er mwyn sicrhau y gellir datgelu gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb fod neb yn clywed. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y cleifion yn gallu newid mewn ystafell ar wahân os bydd angen, a chadarnhaodd fod y drws yn cael ei gloi yn ystod triniaethau er mwyn cynnal urddas y claf bob amser.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi'u trin ag urddas a pharch gan y staff yn y clinig ac yn teimlo eu bod yn gallu cynnal eu preifatrwydd, eu hurddas a'u gwedduster bob amser yn ystod apwyntiadau.

Gall y cleifion gael aelod o'r teulu, ffrind neu hebryngwr ffurfiol wrth law i'w cefnogi yn ystod ymgynghoriadau a sesiynau triniaeth.

### **Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y byddai'n asesu galluedd y cleifion i gydsynio i driniaeth a rhoddwyd sicrwydd i ni y byddai'r cleifion yn gallu gwneud eu penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â chydsynio i driniaeth. Mae'r cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn cael triniaeth er mwyn eu helpu i ddeall yr opsiynau o ran triniaeth sydd ar gael iddynt, a'r risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth er mwyn eu helpu i ddeall yr opsiynau o ran triniaeth a oedd ar gael a'r risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â phob opsiwn. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod bob amser yn cael gwybod am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod bob amser yn llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael unrhyw driniaeth newydd. Gwelsom

dystiolaeth o ffurflenni cydsynio yng nghofnodion y cleifion wedi'u llofnodi ganddynt a'u cydlofnodi gan weithredwr y peiriant laser i gadarnhau hyn.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod y staff yn gwranddo arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys.

Roedd canllaw i gleifion ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros i lawr y grisiau a darparwyd datganiad o ddiben<sup>2</sup> i ni gan y rheolwr cofrestredig. Nodwyd gennym fod y ddwy ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y gwiriadau cyn triniaeth addas sy'n cael eu cwblhau ar gleifion er mwyn sicrhau bod y peiriant laser wedi'i osod mewn man diogel ac effeithiol o ystyried y math o groen a gwallt sydd ganddynt. Mae'n ofynnol i gleifion gael prawf clwt ar ran fach o'u croen cyn cael triniaeth; dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael prawf clwt cyn iddynt gael triniaeth i gadarnhau'r drefn hon.

Gwelsom gopi o'r daflen â chyngor ôl-ofal a ddarperir i'r cleifion er mwyn sicrhau eu bod yn deall sut i atal heintiau a helpu'r broses wella ar ôl eu triniaeth.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a gwelwyd tystiolaeth eu bod yn cael eu cynnal i safon uchel, gan olygu bod diogelwch a llesiant cleifion, yn ogystal ag anghenion unigol, yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gofal.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

---

<sup>2</sup> Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw datganiad o ddiben, sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

Mae'r clinig wedi'i leoli ar y llawr cyntaf i fyny grisiau serth ac felly nid yw'n hygyrch i bobl â phroblemau symudedd. Argymhellwn fod y materion hygyrchedd hyn yn cael eu gwneud yn glir i gleifion yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau ei ddatganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion er mwyn rhoi gwybod i gleifion â phroblemau symudedd am y problemau hygyrchedd yn y clinig, a darparu copi i AGIC.

#### Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Mae'r clinig yn ceisio adborth drwy adolygiadau ar-lein ar gyfryngau cymdeithasol fel Facebook ac Instagram yn bennaf. Mae tryloywder yr adolygiadau ar-lein yn sicrhau y rhoddir gwybod i gleifion presennol a darpar gleifion am ansawdd y gofal a ddarperir gan y clinig.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod hefyd yn dylunio holiadur boddhad cleifion i'r rhai nad oeddent am roi adolygiad ar-lein. Gwnaethom annog y dull gweithredu hwn, gan nodi mai'r arfer orau fyddai galluogi'r cleifion i roi eu barn yn ddiennw a hysbysu'r cleifion am unrhyw newidiadau a wneir er mwyn dangos bod y clinig yn gwrandao ar yr adborth ac yn gweithredu arno.

Dyweddodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn ymwybodol bod y clinig yn ceisio'u barn am y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael gofal unigol sy'n canolbwyntio ar y claf, ac roedd y gofal hwnnw yn cael ei ddogfennu mewn cofnodion cleifion a oedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Roedd y cyfleusterau clinigol mewn cyflwr da, ac roedd y peiriant laser wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl.

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag amodau ei gofrestrriad ag AGIC bob amser.

### Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwnaethom edrych ar y trefniadau a oedd ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl a oedd yn ymweld â'r safle.

Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod gwiriadau diogelwch nwy a phroffion dyfeisiau cludadwy (PAT) wedi cael eu cynnal bob blwyddyn. Ni allai'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth yn ystod yr arolygiad fod gwiriad o wifrau trydanol y safle wedi cael ei gwblhau. Gwnaethom hysbysu'r clinig fod angen i'r dystiolaeth hon gael ei darparu i AGIC fel rhan o'i gynllun gwella a gwblhawyd yn Atodiad C.

Gwelsom dystiolaeth bod y diffoddwyr tân ym mhob rhan o'r safle wedi cael eu gwasanaethu bob blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n gywir a gwelsom fod arwyddion a gyfer yr allanfeydd tân. Roedd y busnes ar lawr gwaelod yr adeilad yn cynnal profion larwm tân. Ni allem fod yn sicr bod asesiad risg tân wedi'i gynnal o'r safle er mwyn lliniaru risgiau a pheryglon tân posibl. Argymhellwn fod hyn yn cael ei gwblhau yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig weithdrefnau priodol i'w dilyn mewn argyfwng, megis pe bai claf yn llewygu, a chadarnhaodd ei fod wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Fodd bynnag, am na chwblhawyd yr hyfforddiant cymorth cyntaf yn ddiweddar, gwnaethom gynghori y dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried dilyn cwrs gloywi cymorth cyntaf.

Gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar gael oddi wrth y busnes i lawr y grisiau. Fodd bynnag, argymhellwn fod y clinig yn prynu ei becyn cymorth cyntaf ei hun yn unol â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid anfon tystiolaeth i AGIC i ddangos bod gwiriad o wifrau trydanol wedi cael ei gynnal ar y safle yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Rhaid i'r clinig drefnu i asesiad risg tân o'r adeilad gael ei gynnal.

Rhaid i becyn cymorth cyntaf newydd gael ei brynu a'i wirio'n rheolaidd gan y staff er mwyn sicrhau bod pob eitem yn bresennol ac o fewn ei dyddiad dod i ben.

### Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y safle mewn cyflwr da ac roedd yr ystafell driniaeth yn lân ac yn daclus. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y safle yn lân iawn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y trefniadau rheoli heintiau addas a oedd ar waith yn y clinig, a oedd yn cynnwys sicrhau hylendid dwylo da a chwblhau rhestr wirio ar gyfer glanhau bob dydd er mwyn dogfennu'r gwaith glanhau a wnaed yn yr ystafell driniaeth a'r gwaith o lanhau'r cyfarpar laser. Gwelsom fod y trefniadau hyn yn gyson â'r rheini a oedd wedi'u hamlinellu ym mholisi rheoli heintiau'r clinig.

### Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'i amodau cofrestru drwy drin cleifion dros 18 oed yn unig. Ni all unrhyw blant sy'n dod gydag oedolion i apwyntiadau fynd i mewn i'r ystafell driniaeth pan gaiff triniaeth ei chynnal er mwyn eu diogelu.

Gwelsom fod polisi oedolion sy'n agored i niwed ar waith, a oedd yn amlinellu'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn pe bai unrhyw bryderon yn ymwneud â diogelu. Roedd y polisi yn cynnwys manylion cyswllt asiantaethau diogelu oedolion lleol perthnasol er mwyn sicrhau y gellir rhoi gwybod am unrhyw bryderon mewn modd priodol ac amserol.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu er mwyn gwella ei wybodaeth ac ymwybyddiaeth mewn perthynas â diogelu oedolion sy'n agored i niwed a all fod mewn perygl.

### **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom fwrw golwg dros y trefniadau a oedd ar waith yn y clinig i ddiogelu'r cleifion wrth ddefnyddio'r peiriant laser. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y peiriant laser wedi cael ei wasanaethu a'i galibradu'n rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau ei fod yn gweithio'n gyson ac yn ôl y disgwyl.

Roedd protocol triniaeth feddygol ar waith hefyd, yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn sicrhau y caiff triniaeth ei rhoi mewn ffordd ddiogel i gleifion. Roedd y protocol wedi cael ei oruchwylio gan ymarferydd meddygol arbenigol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau er mwyn rhoi cymorth arbenigol ar ddiogelwch y peiriant laser a'i ddefnydd gweithredol o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y rheolau lleol a oedd ar waith yn y clinig, sy'n llywodraethu defnydd diogel o'r peiriant laser, wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau. Fodd bynnag, cyn hyn, gwelsom fod y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi adolygu'r rheolau bob 18 mis. Nid yw hyn yn unol ag amodau cofrestriad y clinig gydag AGIC, sy'n gofyn bod y rheolau lleol yn cael eu hadolygu bob blwyddyn o leiaf gan arbenigwr perthnasol ym maes laserau neu oleuni pwls dwys [Cynghorydd Diogelu rhag Laserau].

Er nad yw hyn wedi arwain at roi hysbysiad diffyg cydymffurfio, disgwylir i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i gydymffurfio ag amodau cofrestriad y clinig o hyn ymlaen.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig hefyd gwblhau a llofnodi'r gofrestr o ddefnyddwyr awdurdodedig sydd wedi'i chynnwys yn y fersiwn ddiweddaraf o'r rheolau lleol i ddangos ei fod yn ymwybodol o'r rheolau hyn a'i fod yn cytuno i'w dilyn. Rhaid i'r gofrestr gael ei diweddarau i gynnwys enwau a llofnodion unrhyw weithredwyr laserau newydd a gyflogir gan y clinig cyn iddynt ddechrau trin cleifion.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r clinig sicrhau bod y rheolau lleol sydd ar waith yn y clinig yn cael eu hadolygu gan ei Gynghorydd Diogelu rhag Laserau o leiaf unwaith y flwyddyn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y gofrestr o ddefnyddwyr awdurdodedig sydd wedi'i chynnwys yn y rheolau lleol yn cael ei chadw'n gyfredol bob blwyddyn.

## Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig yn bodloni gofynion yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)<sup>3</sup> i fod yn ddefnyddiwr cymwys o'r peiriant laser, gan ei fod wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth<sup>4</sup> a hyfforddiant gan wneuthurwr y peiriant laser ar sut i'w ddefnyddio'n ddiogel.

Roedd amrywiaeth o gyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i'r cleifion a'r gweithredwyr laserau. Gwelsom fod y sbectol a'r gogls yn cael eu cadw mewn cyflwr da a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig eu bod yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i weld a oeddent wedi'u difrodi.

Ni chafodd unrhyw gleifion driniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad, ond disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y rhagofalon diogelwch a gymerir yn ystod triniaethau. Mae arwydd y tu allan i'r ystafell driniaeth yn rhybuddio bod y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio a chaiff yr ystafell driniaeth ei chloi er mwyn atal unrhyw unigolion anawdurdodedig rhag dod i mewn yn ystod triniaethau. Dywedwyd wrthym fod allwedd y peiriant laser yn cael ei chadw dan glo ar ôl pob apwyntiad er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chadw'n ddiogel pan nad yw'n cael ei defnyddio.

Gwelsom fod y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi ymweld â'r clinig yn 2014 pan gafodd y clinig ei gofrestru gyntaf ag AGIC i gwblhau asesiad risg amgylcheddol er mwyn nodi a lleihau unrhyw beryglon sy'n gysylltiedig â

---

<sup>3</sup> [Lasers, intense light source systems and LEDs – guidance for safe use in medical, surgical, dental and aesthetic practices](#)

<sup>4</sup> Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio peiriannau laser yn ddiogel

defnyddio'r peiriant laser ac amgylchedd yr ystafell driniaeth. Ers hynny, mae'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a'r rheolwr cofrestredig wedi cyfathrebu o bell i gadarnhau na fu unrhyw newidiadau i'r amgylchedd na chynllun yr ystafell driniaeth er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n ddiogel ar gyfer darparu triniaethau.

### **Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn cysylltu â chleifion yn rheolaidd yn ystod eu cwrs o driniaeth er mwyn deall sut mae'r driniaeth yn mynd rhagddi. Mae hyn yn helpu'r clinig i ddarparu gofal unigol ac, ynghyd ag adolygiadau gan gleifion, i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i gleifion.

### **Rheoli cofnodion**

Gwelsom dystiolaeth bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw yn unol ag arferion gorau a chanllawiau proffesiynol, a'u bod yn helpu'r gwasanaeth i ddarparu gofal o ansawdd da i gleifion. Roedd nodiadau'r cleifion yn fanwl ac o ansawdd da, ac roedd cofrestr gynhwysfawr o driniaeth cleifion yn cael ei chadw.

Nodwyd gennym fod gwybodaeth am y cleifion yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd cofnodion papur y cleifion yn cael eu cadw mewn cabinet dan glo er mwyn atal mynediad iddynt heb awdurdod.



## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Roedd y rheolwr cofrestredig yn meddu ar y sgiliau priodol a'r wybodaeth berthnasol i ddarparu triniaeth ddiogel i gleifion.

Roedd gan y gwasanaeth amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ac roeddent i gyd yn cael eu diweddarau'n flynyddol.

Byddai'r weithdrefn gwynion sydd ar waith yn y clinig yn sicrhau y gellid ymdrin â chwynion cleifion yn effeithiol ac yn amserol.

### Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Caiff Pleasure or Pain Productions ei redeg gan y rheolwr cofrestredig, sef unig weithredwr laser y gwasanaeth, sydd hefyd yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd.

Gwelsom fod gan y clinig nifer o bolisiâu ar waith a oedd yn hygyrch, a gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y polisiâu hyn yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Gwelsom fod gan y clinig dystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol er mwyn ei amddiffyn rhag ceisiadau am iawndal a chostau cyfreithiol cysylltiedig.

### Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan y gwasanaeth weithdrefn cwynion briodol a oedd yn cynnwys manylion cyswllt cywir AGIC yn unol â gofynion rheoliadol. Mae crynodeb o'r weithdrefn cwynion wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben ac yn y canllaw i gleifion.

Gwelsom fod systemau addas ar waith i gofnodi a rheoli unrhyw gwynion ffurfiol neu anffurfiol a phryderon y bydd y clinig yn eu derbyn gan y cleifion.

## Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod ganddo gytundeb anffurfiol â gweithredwr laserau arall sy'n barod i roi rhai triniaethau sensitif i gleifion. Nid yw'r gweithredwr laserau wedi'i gyflogi'n ffurfiol gan y clinig ond gwelsom dystiolaeth i roi sicrwydd bod ganddo'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ynghyd â'r hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriant laser yn ddiogel.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig hefyd y byddai'n ofynnol i'r gweithredwr laserau ddarllen y rheolau lleol a llofnodi'r gofrestr o ddefnyddwyr awdurdodedig i ddangos ei fod yn ymwybodol o'r rheolau ac yn cytuno arnynt cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn cael sgysiau diweddarau anffurfiol â'r gweithredwr laserau er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r polisïau a'r arferion cyflogaeth sydd ar waith yn y clinig.

## Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom dystiolaeth bod gan y rheolwr cofrestredig dystysgrif briodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd <sup>5</sup> (DBS) er mwyn helpu'r gwasanaeth i gydymffurfio â'r gofynion rheoliadol, sef bod y staff o gymeriad da, ac er mwyn helpu i ddiogelu cleifion rhag y perygl o ofal a thriniaeth amhriodol neu anniogel. Gwelsom dystiolaeth bod gan y gweithredwr laserau arall a ddefnyddir gan y clinig dystysgrif DBS briodol hefyd.

---

<sup>5</sup> Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgryfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

## Atodiad B – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Pleasure or Pain Productions

### Dyddiad arolygu: 04 Chwefror 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau ei ddatganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion er mwyn rhoi gwybod i gleifion â phroblemau symudedd am y problemau hygrychedd yn y clinig, a darparu copi i AGIC.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru Safon 2	Dogfen wedi'i diweddarau ac anfonwyd copi at AGIC.	Gareth Wills	Cwblhawyd.
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
Rhaid anfon tystiolaeth i AGIC i	Safonau Gofynnol	Cwblhawyd y gwiriad gwifrau bob	Gareth Wills	Cwblhawyd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ddangos bod gwiriad o wifrau trydanol wedi cael ei gynnal ar y safle yn ystod y pum mlynedd diwethaf.	Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru	pum mlynedd ac anfonwyd copi at AGIC.		
Rhaid i'r clinig drefnu i asesiad risg tân o'r adeilad gael ei gynnal.	Safon 22	Cwblhawyd yr asesiad risg tân a'i anfon at AGIC.	Gareth Wills	Cwblhawyd.
Rhaid i becyn cymorth cyntaf newydd gael ei brynu a'i wirio'n rheolaidd gan y staff er mwyn sicrhau bod pob eitem yn bresennol ac o fewn ei dyddiad dod i ben.	Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981 Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 26	Prynwyd pecyn cymorth cyntaf newydd ac mae'n cael ei arddangos.	Gareth Wills	Cwblhawyd.
Rhaid i'r clinig sicrhau bod y rheolau lleol sydd ar waith yn y clinig yn cael eu hadolygu gan ei Gyngorydd Diogelu rhag Laserau o leiaf unwaith y flwyddyn.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 19 Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru	Cysylltwyd â'r Cyngorydd Diogelu rhag Laserau a dywedodd fod angen i AGIC gael tystysgrif wedi'i diweddarau bob blwyddyn.	Gareth Wills	Cwblhawyd.
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y gofrestr o ddefnyddwyr awdurdodedig sydd wedi'i chynnwys yn y rheolau lleol yn cael ei chadw'n gyfredol bob blwyddyn.	Safon 22	Rheolau lleol wedi'u diweddarau a'u llofnodi.	Gareth Wills	Cwblhawyd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
Ni wnaed unrhyw argymhellion.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Gareth Wills**

**Swydd: Rheolwr**

**Dyddiad: 24/07/2020**